



Cyd-Bwyllgor ERW
Dydd Iau, 8 Gorffennaf, 2021
Rhith-Gyfarfod

2:00yp - 3:15yb

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd E. Dole (Cadeirydd)

| | |
|---------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------|
| Y Cyngorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cyngorydd Rob Smith (yn dirprwyo ar ran y Cyngorydd Rob Stewart) | Cyngor Abertawe |
| Y Cyngorydd Guy Woodham (yn dirprwyo ar ran y Cyngorydd David Simpson) | Cyngor Sir Penfro |
| | |
| Mr Richard Brown | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Phil Roberts | Cyngor Abertawe |
| Dr Caroline Turner | Cyngor Sir Powys |
| Mrs Wendy Walters | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| | |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro (ERW – Swyddog Adran S151) |
| Ms Tracey Meredith | Cyngor Abertawe (ERW -Swyddog Monitro) |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfarwyddwr Arweiniol) |
| Mr Stephen Richards-Downes | Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol) |
| Ms Helen Morgan-Rees | Cyngor Abertawe |
| Ms Debbie Smith | Cyngor Abertawe |
| Mr Greg Morgan | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ian Altman | Prif Swyddog ERW |
| Mr Ceri Davies | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Ms Helen Lewis | Cyngor Sir Penfro (ERW - Adnoddau Dynol) |
| Ms Jo Hendy | Cyngor Sir Penfro (ERW – Pennaeth Archwilio) |

(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

| | |
|---------------------------|----------------------------------------------------|
| Ms Mark McLaughlin | Prif Gyfrifydd ERW |
| Mr Alex Ingram | Llywodraeth Cymru |
| Ms Clive Phillips | ESTYN |
| Mrs Michelle Evans Thomas | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Mr Kevin Jones | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Mrs Janine Owen | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Mrs Sarah Hendy | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Siwan Rees | Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu) |

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro), a'r Cyngorydd Rob Stewart (Cyngor Abertawe). Roedd y Cyngorydd Guy Woodham (Cyngor Sir Penfro) a'r Cyngorydd Rob Smith (Cyngor Dinas a Sir Abertawe) yn bresennol yn y cyfarfod fel dirprwyon.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

3. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 30 MAWRTH 2021

Codwyd y cywiriad canlynol:

- **Cofnod 10 - Unrhyw Fater Arall**

Dileu'r cyfeiriad at Gyngor Sir Powys, gan nad oeddent wedi cyflwyno rhybudd yn rhoi gwybod y byddent yn dymuno gadael y consortiwm.

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor ERW oedd wedi ei gynnal ar 30 Mawrth 2021 yn gywir, yn amodol ar gynnwys y newid uchod.



4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Cofnod 8 – Prydles y Llwyfan

Gofynnwyd am ddiweddariad mewn perthynas â Phrydles y Llwyfan. Dywedodd Mr Morgans ei fod wedi cyfathrebu'n ddiweddar â'r tri Phrif Weithredwr yn gofyn a fyddai un o'r Cynghorau yn hapus i ymgymryd â'r brydles gan Gyngor Sir Powys. Yn ogystal, dywedwyd y byddai'r bartneriaeth newydd, gan gynnwys prydles y Llwyfan, yn cael ei thrafod yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Cysgodol sydd ar y gweill, y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor hwn yn dilyn y cyfarfod.

Cofnod 6 – Llythyr Castell-nedd Port Talbot – Caffael Gwasanaethau a Cofnod 7 – Llythyr Ceredigion – Caffael Gwasanaethau

Dywedodd y Cadeirydd fod rhaglenni penodol yn cael eu cyflwyno i Ysgolion Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion fel y cytunwyd.

Yn ogystal, dywedwyd bod y brydles ar gyfer 'Y Llwyfan' wedi'i hystyngiadau er mwyn creu lle ychwanegol ar gyfer y bartneriaeth newydd ond roedd Swyddogion wedi lleihau nifer yr ystafelloedd oedd eu hangen o fis Medi a oedd felly wedi lleihau cost y brydles.

5. GOHEBIAETH

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor yr ohebiaeth ganlynol:

- Llythyr gan Gadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor yn ystyried sylwadau yn dilyn cyfarfod diwethaf y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ar 1 Mawrth 2021.
- Ymateb gan Gadeirydd y Cyd-bwyllgor mewn i Gadeirydd Grŵp Craffu ERW

Mynegwyd pryder yn benodol mewn perthynas â pharagraff 3 yn y llythyr gan Gadeirydd Grŵp Cynghorwyr Craffu ERW a oedd yn awgrymu bod y rhai nad oeddent yn rhan o'r bartneriaeth newydd yn dewis comisiynu. Pwysleisiwyd nad oedd o ddewis y byddai gwasanaethau'n cael eu comisiynu o fis Medi ymlaen, y ffaith oedd bod diwedd y bartneriaeth yn agosáu ac felly bod trefniadau newydd yn cael eu rhoi ar waith. Roedd y pryder yn ymwneud â'r argraff ganfyddedig a oedd yn cael ei chyfleu i'r Grŵp Craffu ac eraill ar y mater hwn. Dywedwyd bod yr ymateb gan y Cadeirydd yn gytbwys gan ddweud na fyddai'r bartneriaeth newydd dan anfantais ariannol.

(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

At hynny, nodwyd y dylid darparu tegwch i'r partneriaid hynny nad ydynt yn rhan o'r bartneriaeth newydd o ran mynediad i'r trefniadau y byddai eu hangen i sicrhau gwasanaeth teg i Benaethiaid Ysgolion.

Yng ngoleuni'r pryderon a godwyd, cynigiwyd y dylid ysgrifennu llythyr pellach at Gadeirydd Pwyllgor Craffu ERW yn rhoi gwybodaeth am yr amgylchiadau cefndirol sy'n nodi beth fyddai'r trefniadau'r bartneriaeth newydd. Eiliwyd y cynnig hwn.

PENDERFYNWYD: -

5.1 Derbyn y llythyr gan Gadeirydd Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor, dyddiedig 23 Mawrth 2021.

5.2 Derbyn ymateb Cadeirydd y Cyd-bwyllgor, dyddiedig 20 Ebrill 2021, mewn ymateb i'r llythyr gan Gadeirydd Grŵp - Craffu ar ERW yn 5.1.

5.3 Bydd Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW yn ysgrifennu llythyr ychwanegol at Gadeirydd Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW yn darparu eglurder ar yr amgylchiadau cefndir a gwybodaeth am y trefniadau newydd yn y dyfodol.

6. DIWEDDARIAD ERW - PRIF SWYDDOGION ERW

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor werthusiad ERW o Gynllun Busnes 2020-21 a'r Cynllun Busnes drafft Ebrill-Awst 2021 i'w hystyried.

Mynegodd y Cyfarwyddwr Arweiniol ei ddiolchgarwch i'r holl staff am eu cefnogaeth barhaus i ysgolion drwy gydol y cyfnod anodd a heriol.

Codwyd yr ymholiadau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at dudalennau 3 Gwerthusiad Cynllun Busnes ERW. Codwyd ei bod yn hanfodol bod Cyngor Sir Powys yn parhau i gael mynediad at y Rhaglenni Arweinyddiaeth Cenedlaethol.. Dywedwyd y byddai'r Academi Genedlaethol yn delio â'r Consortiwm yn unig. Er y byddai Powys yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r Consortiwm newydd, mynegwyd pryder y byddai hyn am gost ychwanegol. Codwyd y mater hwn gyda Llywodraeth Cymru. Dwedwyd na fyddai modd cael mynediad i rai o'r rhaglenni yng Nghymru, a'r opsiwn arall fyddai edrych i Loegr. I grynhoi, cydnabuwyd y byddai Powys, o fis Medi 2021, yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad i'r rhaglenni y mae Penaethiaid ac Athrawon yn dibynnu arnynt.



Cyfeiriwyd at dudalen 19 Gwerthusiad Cynllun Busnes ERW. Dywedwyd bod 'Dolen' yn adnodd hanfodol yr oedd pob un o'r 6 Awdurdod Lleol wedi cyfrannu tuag ato dros nifer o flynyddoedd. Gan fod hwn yn adnodd ar y cyd, gofynnwyd beth fyddai'r trefniadau o fis Medi 2021 ymlaen?

Mewn ymateb i'r ymholiadau uchod, dywedodd y Cyfarwyddwr Arweiniol y byddai mynediad i raglenni i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Consortiwm yn cael ei ystyried ac y byddai'n ddoeth sicrhau ei fod ar gael fel darpariaeth ranbarthol. Mewn perthynas â'r gwasanaeth 'Dolen', roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd mewn perthynas â mynediad at adnoddau a grëwyd gan y consortiwm. Esboniwyd bod Dolen yn llwyfan y talwyd amdano ar wahân ac y gallai fod posibilrwydd o ddatblygu cytundeb tymor byr i gynnal y llwyfan. Rhoddwyd sicrwydd y byddai llwyfan Dolen yn hygyrch i bawb.

- Cyfeiriwyd at elfennau Llesiant y cynllun. Mynegwyd pryder ynglŷn â'r cynnydd yn y galw am wasanaethau iechyd meddwl i ddysgwyr. Gofynnwyd a oedd y cynnydd hwn ar draws y rhanbarth ac os felly, a ellid ystyried cefnogi ysgolion drwy ddefnyddio dull rhanbarthol? Eglurodd y Prif Swyddog, mewn ymateb, fod hyn wedi bod yn flaenoriaeth dros y 18 mis diwethaf a bod ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i barhau fel blaenoriaeth. Yn ogystal, roedd rhaglenni ar draws y rhanbarth i gefnogi iechyd meddwl staff a disgyblion.

PENDERFYNWYD: -

6.1 Derbyn Gwerthusiad Cynllun Busnes ERW 2020-21;

6.2 Cymeradwyo Cynllun Busnes ERW hyd Ebrill - Awst 2021.

7. DATBLYGIAD ERW - GARETH MORGANS

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a ategwyd gan ddiweddariad llafar gan y Cyfarwyddwr Arweiniol ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu rhaglenni Llywodraeth Cymru a gwasanaethau Consortia o 1 Medi 2021.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb byr o drefn ERW a bod Gweithred Amrywio yn cael ei dosbarthu ar hyn o bryd ymhlith y 4 Awdurdod partner presennol i ganiatáu i'r holl awdurdodau sy'n weddill dynnu'n ôl o ERW ar yr un pryd a chyda Chonsortiwm presennol ERW yn dod i ben. Byddai'n ofynnol i'r partneriaid sy'n weddill wneud trefniadau amgen ar gyfer cyflawni gwelliannau mewn addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr.

(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

Dywedwyd bod trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng gweddill yr awdurdodau lleol o ran cyflawni'r swyddogaethau y cytunwyd arnynt yn y dyfodol.

Nododd y Pwyllgor fod Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro ac Abertawe wedi cytuno i ffurfio partneriaeth newydd a fyddai'n weithredol o 1 Medi 2021 ac roedd Powys yn gwneud eu trefniadau lleol eu hunain a oedd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â Cheredigion ar rai agweddau ar wella ysgolion.

Tynnodd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Arweiniol sylw at y ffaith bod strwythur staffio presennol ERW wedi'i greu i wasanaethu ysgolion mewn 6 Awdurdod Lleol ac er bod rhai swyddi'n wag, roedd eraill yn cael eu llenwi gan secondiadau. Roedd rhai aelodau o staff wedi llwyddo i sicrhau swyddi newydd ac roedd yn debygol y byddai symud i drefniadau newydd yn arwain at rai diswyddiadau, ond byddai hyn yn cael ei gyfyngu cyn lleied â phosibl.

Codwyd yr ymholiadau canlynol:-

- Dywedwyd bod Powys wedi rhoi trefniadau ar waith ar ôl mis Awst 2021, ond nid oedd yn glir y byddai costau ychwanegol ynghlwm wrth fynediad at wasanaethau/rhaglenni o fis Medi ymlaen. Er y byddai'r gronfa grant yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru, nid oedd y pwysau o'r costau ychwanegol o 1 Medi 2021 wedi'u rhagweld. Byddai'n fuddiol pe bai costau ychwanegol yn cael eu gwneud yn glir a sut y byddai'r cyfraniadau'n cael eu gwneud. At hynny, byddai'n fuddiol cael gwybod faint o aelodau staff fyddai ar ôl ar gyfer y trefniadau newydd ym mis Medi 2021.

Yn ogystal, y gobaith oedd y byddai ymrwymiad yn y cytundeb y byddai Ceredigion a Chastell-nedd Port Talbot hefyd yn cyfrannu at unrhyw gost ychwanegol wrth ddod â'r trefniant i ben. Dylid rhannu'r costau hyn gan ddefnyddio'r fformiwla gyfrifedig.

Esboniodd y Cadeirydd y byddai'r costau terfynol yn berthnasol i bob partner ac y byddai'r costau'n seiliedig ar y fformiwla flaenorol o gyfraniadau.

Dywedwyd bod gan bob parti, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion, rwymedigaeth ddigwyddiadol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2022 lle byddai costau'n cael eu hadennill.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Arweiniol, o ran y costau ychwanegol, ei fod yn gweithio'n agos gyda Swyddog Adran 151 i fodlu beth fyddai'r costau ar ddiwedd y broses ac mai'r bwriad oedd ysgrifennu at bob partner cyn diwedd mis Awst i rannu'r wybodaeth.



PENDERFYNWYD: -

7.1 Derbyn y diweddariad ar lafar ynglŷn â darparu Gwasanaethau Consortia cyfredol ar ôl Awst 2021;

7.2 nodi'r dulliau arfaethedig ar ôl Awst 2021.

8. DIWEDDARIAD ARIANNOL ERW

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor Alldro Diweddariad Ariannol ERW 2020-21 yn ymwneud â'r meysydd canlynol:-

- Cyllideb y Tîm Canolog
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Dyraniadau Grant
- Grant Datblygu Disgyblion
- Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol)
- Grantiau – Cwricwlwm, Digidol, Cymraeg, Arweinyddiaeth, Dysgu Proffesiynol, a Thegwch a Llesiant
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor fod y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer 2020/21 yn dod i gyfanswm o £139,000 a chyfanswm cyfraniadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer yr un cyfnod oedd £480,356 a bod yr holl gyfraniadau wedi'u talu.

Tynnwyd sylw'r Pwyllgor at y tabl ar dudalen 3 yr adroddiad a oedd yn nodi mai £300k oedd yr Arian Wrth Gefn. Dywedwyd bod gwariant ychwanegol o £30k yn yr cyflogau wedi'i ganfod ers cyhoeddi'r adroddiad hwn, wrth gynhyrchu'r datganiad cyfrifon drafft. Felly, dylid nodi'r Arian Wrth Gefn fel £270k.

Cafwyd cadarnhad i'r Pwyllgor y defnyddiwyd yr hyblygrwydd grant o £500k a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020/21.

Gan gyfeirio at dabl Dyrannu Grantiau 2020-21 ar dudalen 4 yr adroddiad, tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd cyfanswm incwm y Grant o £56.288m, £607,063 RCSIG a £14,384 o gyllid y Grant Datblygu Disgyblion wedi'i wario yn ystod 2020-21 a'i fod wedi'i gario ymlaen i'w ddefnyddio yn 2021-22.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Alldro Ariannol ERW ar gyfer 2020/21.

9. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL 2020-21

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar y Rhaglen Waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/21 a roddodd ganfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Consortiwm ERW 2020-21.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y gwaith wedi'i gwblhau ym mis Ebrill-Mai 2021 a'i orffen yn derfynol ym mis Mehefin 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion a dim ond sicrwydd cyfyngedig cyffredinol y gellid ei roi ar effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu, rheoli risg, rheolaeth fewnol a rheolaeth ariannol sydd ar waith. Nododd y Pwyllgor mai hon oedd y bedwaredd flwyddyn o ddarparu barn sicrwydd cyfyngedig ac yn unol â'r ymrwymiad y llynedd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gynnal yr adolygiad gwersi a ddysgwyd, awgrymwyd y dylid cynnwys Adroddiadau Archwilio Mewnol y flwyddyn flaenorol yn yr adolygiad hwnnw er mwyn cryfhau'r trefniadau wrth symud ymlaen i'r bartneriaeth newydd.

Er bod yr adroddiad hwn yn perthyn i Gonsortia presennol ERW, nododd y Pwyllgor y byddai'n ddoeth i'r bartneriaeth newydd gynnwys yr argymhellion hyn o fis Medi ymlaen.

PENDERFYNWYD nodi Adroddiad Archwilio Mewnol Consortiwm ERW 2020-21.

10. Y GOFRESTR RISG ERW

Cafodd y Cyd-bwyllgor y Gofrestr Risg yn manylu ar y prif risgiau busnes strategol i amcanion ERW. Dywedwyd bod y risgiau mewn perthynas â chymwysterau 2021 wedi'u diweddarau.

PENDERFYNWYD derbyn y gofrestr Risg a nodi'r newidiadau yn y proffil risg.

11. GWEITHRED AMRYWIO DDRAFFT I GYTUNDEB Y CYD-BWYLLGOR DYDDIEDIG 16 GORFFENNAF 2014

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad a oedd yn cynnwys y Weithred Amrywio ddrafft a atodir i'r adroddiad.

Roedd telerau'r Weithred Amrywio ddrafft wedi'u datblygu i ganiatáu i bartïon presennol y Consortiwm adael y trefniadau rhanbarthol a therfynu Cytundeb y Cyd-bwyllgor dyddiedig 16 Gorffennaf 2014.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro newydd o Gyngor Dinas Abertawe ei hun a'i chydweithiwr Dirprwy Swyddog Monitro, hefyd o Gyngor Dinas Abertawe, a oedd wedi bod yn gweithio ar y trefniadau cytundebol mewn perthynas â'r Weithred Amrywio.



(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

Atgoffwyd y Pwyllgor y cytunwyd ar newidiadau i Gytundeb y Cyd-bwyllgor ym mis Tachwedd 2020, gan ganiatáu i Gyngorau Castell-nedd a Phort Talbot a Cheredigion gael mynediad at wasanaethau y cytunwyd arnynt. Yn ogystal, mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, roedd y newidiadau y cytunwyd arnynt yn galluogi hwyluso, diddymu a therfynu ERW i fynd i'r afael ag unrhyw rwymedigaethau neu indemniadau dilynol yr holl Awdurdodau presennol a blaenorol ac i hwyluso cyfnod rhybudd llai. Yn dilyn cytundeb y Pwyllgor, adroddwyd bod pob Awdurdod Etholaethol wedi cyflwyno adroddiad i'w Gabinet lle rhoddwyd Awdurdod Dirprwyedig i'r Prif Swyddogion Cyfreithiol ac mewn rhai Awdurdodau'r Cyfarwyddwr Addysg i'w roi yn y Weithred Amrywio ac unrhyw eiriad angenrheidiol i gyflawni'r penderfyniad

Roedd yr adroddiad yn gofyn am arweiniad gan y Cyd-bwyllgor i'r Cyngorau Cyfansoddol weithredu drwy gwblhau telerau'r Weithred Amrywio a rhoi hysbysiad gan ddefnyddio'r pwerau dirprwyedig a gymeradwywyd yn flaenorol.

Codwyd y sylwadau/ymholiadau canlynol:-

- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r amserlen fer sydd ar gael i'r pedwar Cabinet gymeradwyo'r Weithred Amrywio. Gofynnwyd am eglurder ynghylch rhai o'r elfennau er mwyn gallu cyflawni hyn.
- Yn ogystal, awgrymwyd y dylid ei gwneud yn glir o fewn y Weithred y byddai'r holl bartneriaid yn terfynu'r trefniadau ar yr un diwrnod ddiwedd mis Awst.
- Codwyd pwynt pellach y byddai angen datrys rhai materion sy'n weddill cyn llofnodi'r Weithred Amrywio a/neu fod angen eglurder cyn eu cymeradwyo.

Roedd y Swyddog Monitro, mewn ymateb i'r pwyntiau a godwyd uchod, yn cyfeirio at y ddirprwyaeth a oedd ar waith a oedd yn galluogi'r Prif Swyddog Cyfreithiol i gymeradwyo yn amodol ar awdurdodiad yr Awdurdod Etholaethol, gan ddileu'r angen i gyfeirio at y Cabinet.

O ran dyddiad dod i ben ddiwedd mis Awst, dywedwyd bod adroddiad eisoes wedi'i dderbyn a oedd yn nodi y byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei ddychwelyd i'r consortiwm hwn i'w gymeradwyo. Fodd bynnag, tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn annhebygol na fyddai hyn yn digwydd cyn diwedd mis Awst 2021, gan ei gwneud yn ofynnol i ERW barhau am dymor byr ar ôl diwedd mis Awst. Yn ogystal, o ran y consortiwm rhanbarthol newydd, byddai'n ofynnol cwblhau Cytundeb Cyd-bwyllgor newydd a fyddai'n gofyn am gymeradwyaeth yn dilyn ystyriaeth a chymeradwyaeth pob Awdurdod Etholaethol.



Esboniwyd na fyddai Awdurdod Etholaethol yn gallu gadael y consortiwm yn unochrog ac y byddai'n rhaid cytuno arno yn unol â'r Weithred Amrywio. Ar hyn o bryd, drafftwyd y Weithred Amrywio y bydd pob awdurdod yn gadael ar yr un pryd. Fodd bynnag, roedd lle, yn amodol ar gytundeb pob parti, i ganiatáu i Awdurdod adael y consortiwm yn gynharach ond byddai angen cynnwys telerau'r trefniant hwn yn y Weithred Amrywio.

Pwysleisiwyd y byddai angen i o leiaf ddau Awdurdod aros yng nghonsortiwm ERW er mwyn galluogi'r Cyd-bwyllgor i barhau, byddai angen cwblhau'r rhwymedigaethau er mwyn i gonsortiwm ERW gwblhau ei fusnes cyn iddo ddod i ben.

PENDERFYNWYD:-

11.1 argymell i bob un o'r Cynghorau cyfansoddol fod

i) penderfyniad yn cael ei wneud i lofnodi'r Weithred Amrywio a chyflwyno hysbysiad i dynnu'n ôl o'r Consortiwm yn unol â chyfansoddiad pob Cyngor a bod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno i Gadeirydd y Cyd-bwyllgor.

ii) Unrhyw benderfyniad gan y Cynghorau yn cael ei gydlynu a'i amseru'n briodol i adlewyrchu'r angen i gwblhau unrhyw fusnes ERW sy'n weddill.

11.2 Yn amodol ar argymhelliad 11.1, rhoi awdurdod i'r swyddog Adran 151 ar gyfer y Consortiwm wneud gwaith pellach i egluro rhwymedigaethau'r partion presennol a blaenorol i'r Consortiwm ac ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Arweiniol i gysylltu â Chynghorau Castell-nedd Port Talbot a Cheredigion i gadarnhau manylion unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o ganlyniad i dynnu'n ôl o'r trefniadau rhanbarthol.

12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYD YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

Nid oedd dim materion brys i'w trafod.

CADEIRYDD

DYDDIAD

